**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 2800 (Cy.199) (C.116)

# OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

## Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005

*Wedi'i wneud* - - *11 Hydref 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 40, 43(1)(b), 44(1) a 44(2) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a sefydlwyd gan adran 23(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974,

ystyr "Comisiynydd Lleol yng Nghymru" ("*a Local Commissioner in Wales*") yw Comisiynydd Lleol (o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974(**2**)) sy'n aelod o'r Comisiwn,

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(**3**),

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ac

ystyr "yr Ombwdsmon" (*the Ombudsman*") yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir fel arall, yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf ac Atodlenni iddi.

(**1**) 2005 p. 10.
(**2**) 1974 p. 7.
(**3**) 2000 p. 22.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 12 Hydref 2005**

**3.** Mae'r darpariaethau a ganlyn yn dod i rym ar 12 Hydref 2005 at y dibenion y cyfeirir atynt—

(a) mae'r darpariaethau a bennir yng ngholofn gyntaf y Tabl yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod i rym at y dibenion a bennir yn ail golofn y Tabl hwnnw, a

(b) mae'r darpariaethau a bennir yng ngholofn gyntaf y Tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod i rym at y dibenion a bennir yn ail golofn y Tabl hwnnw.

**4.**—(1) Mae adran 35 a'r paragraffau a ganlyn o Atodlen 4 yn dod i rym yn unol â pharagraffau (2) a (3) isod—

(a) 1, 2, 4,

(b) 11(a) ac (c) i (e),

(c) 14(a), a

(ch) 23.

(2) Heblaw fel y darperir ym mharagraff (3) isod, daw'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod i rym ar 12 Hydref 2005 at ddibenion gwneud gorchmynion a rheoliadau (yn ôl y digwydd) yn ymwneud â swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Ran 3 o Ddeddf 2000.

(3) Hyd 1 Ebrill 2006 bydd y darpariaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) isod yn parhau i gael effaith, at y diben y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) isod, fel pe na byddai'r diwygiadau a wnaed gan y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod yn cael effaith—

(a) y darpariaethau y cyfeirir atynt uchod yw'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2000—

(i) 49,

(ii) 53,

(iii) 68(1), (3) a (4),

(iv) 70(2)(b), a

(v) 82.

(b) y diben y cyfeirir ato uchod yw'r diben o wneud gorchmynion a rheoliadau (yn ôl y digwydd) yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn neu Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran 3 o Ddeddf 2000.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2006**

**5.**—(1) Heblaw fel y darperir ym mharagraff (2) isod, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (3) isod, daw darpariaethau'r Ddeddf, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) At ddibenion y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006—

(a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b) isod ac er gwaethaf dyfodiad adran 39 ac Atodlen 7 i rym, mae'r darpariaethau hynny o'r Deddfau y cyfeirir atynt yn y golofn gyntaf o'r Tabl yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn parhau i gael effaith fel pe na bai'r darpariaethau hynny wedi cael eu diddymu gan y Ddeddf, a

(b) mae'r darpariaethau hynny yn parhau i gael effaith yn unol ag is-baragraff (a) uchod yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn ail golofn y Tabl yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(3) Nid yw'r darpariaethau a ganlyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006—

(a) adran 20, a

(b) paragraff 15(5) o Atodlen 1.

**Cwynion sy'n rhychwantu'r dyddiad cychwyn**

**6.**—(1) Os yw'r erthygl hon yn gymwys rhaid i'r Ombwdsmon ystyried y gwyn yn unol â darpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf.

(2) Mae'r erthygl hon yn gymwys—

(a) os oes cwyn wedi cael ei gwneud neu wedi cael ei chyfeirio yn briodol at yr Ombwdsman ynglŷn â mater sy'n ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 ac â digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwnnw, a

(b) os o ran y digwyddiadau a fu cyn 1 Ebrill 2006 gallesid (heblaw am ddarpariaethau eraill y Ddeddf) bod wedi gwneud cwyn wrth un o Ombwdsmyn presennol Cymru o dan y deddfiad presennol perthnasol ond nis gwnaed.

(3) At ddibenion yr erthygl hon nid yw'r Ombwdsmon wedi ei rwystro rhag ymchwilio i fater (neu ran o fater) yn unol â Rhan 2 o'r Ddeddf yn unig am fod y mater yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006.

(4) At ddibenion paragraff (2) uchod mae gan—

(a) "Ombwdsmon presennol Cymru" a

(b) "y deddfiad presennol perthnasol",

yr ystyron sydd i "existing Welsh Ombudsman" a "the relevant existing enactment" yn adran 38(6).

**Darpariaeth Drosiannol — amcangyfrifon**

**7.**—(1) Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r erthygl hon yn gymwys i'r Ombwdsmon o ran y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

(2) Rhaid i'r Ombwdsmon baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau'r swydd honno am y flwyddyn ariannol honno a'i gyflwyno i Gabinet y Cynulliad dim hwyrach nag un mis cyn cychwyn y flwyddyn ariannol honno.

(3) Rhaid i Gabinet y Cynulliad graffu ar yr amcangyfrif ac yna ei osod gerbron y Cynulliad gydag unrhyw addasiadau y tybia eu bod yn briodol.

(4) Os yw Cabinet y Cynulliad yn bwriadu gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, rhaid iddo ymghynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyntaf.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
11 Hydref 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

ATODLEN 1

Erthygl 3

**DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 12 HYDREF 2005**

# Rhan 1

| Darpariaethau | Diben |
|---|---|
| Adran 1 a pharagraffau 1, 2, 3, 5(1) i (3), 6 ac 8 o Atodlen 1 | At y diben o benodi'r Ombwdsmon. |
| Adran 10 ac Atodlen 2 | Pob diben. |
| Is-adrannau (7) i (9) o adran 25 | Pob diben. |
| Adran 28 ac Atodlen 23 | Pob diben. |
| Adran 29 | Pob diben. |
| Adran 30 | Pob diben. |
| Adran 39 a pharagraffau 61 i 63 o Atodlen 6 | At y diben o benodi'r Ombwdsmon. |

# Rhan 2

| Darpariaethau | Diben |
|---|---|
| Adran 39 a pharagraff 18(11) a (13) o Atodlen 6 | At y diben o symud ymaith y ddyletswydd ar y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru i baratoi ac gyflwyno amcangyfrif o'r treuliau y bydd yn eu tynnu yn y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007. |
| Adran 39 a'r cofnod yn Atodlen 7 ar gyfer Deddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993(**5**) ond yn unig er gweithredu diddymiad paragraff 9 o Atodlen 1A i'r Ddeddf honno | At y diben o symud ymaith y ddyletswydd ar Gomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru i baratoi ac i gyflwyno amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd y bydd yn eu tynnu yn y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007. |
| Adran 39 a'r cofnod yn Atodlen 7 ar gyfer Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ond yn unig er gweithredu diddymiad paragraff 8 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno | At y diben o symud ymaith y ddyletswydd ar Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru i baratoi ac i gyflwyno amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd y bydd yn eu tynnu yn y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007. |

(**5**) 1993 p.46.

ATODLEN 2 Erthygl 5

## ARBEDION

| **Darpariaethau** | **Addasiadau** |
|---|---|
| Adran 1(3) a pharagraffau 10 i 14 o Atodlen 1A i Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993 | At ddibenion paragraff 12 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno, yr Ombwdsmon fydd yn cael ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu. |
| Adran 111(2) a pharagraffau 9 i 13 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | At ddibenion paragraff 11 o'r Atodlen honno i'r Ddeddf honno, yr Ombwdsmon fydd yn cael ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu. |
| Adran 51A(7) a pharagraffau 13 i 17 o Atodlen 2A i Ddeddf Tai 1996(**6**) | At ddibenion paragraff 15 o'r Atodlen honno i'r Ddeddf honno, yr Ombwdsmon fydd yn cael ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf"), ac eithrio adran 20 a pharagraff 15(5) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Mae erthygl 3 a Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf ar 12 Hydref 2005 at y diben o benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"), yn cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â phersonau sydd i'w hanghymhwyso rhag dal swydd yr Ombwdsmon.

Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn dwyn i rym amrywiol bwerau (sydd wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad")) ar 12 Hydref 2005 i wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 3 a Rhan 2 o Atodlen 1 yn dwyn i rym ar 12 Hydref 2005 ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n symud ymaith gyfrifoldebau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru i baratoi ac i gyflwyno i Gabinet y Cynulliad amcangyfrifon o incwm ac o wariant y naill swydd a'r llall am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn dwyn i rym ar 12 Hydref 2005 y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n symud ymaith ddyletswydd y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru i baratoi ac i gyflwyno i'r Cynulliad amcangyfrif o'r treuliau y bydd yn eu tynnu am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007. Er bod paragraff 7(1) o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru gyflwyno ei amcangyfrif i'r Ysgrifennydd Gwladol, mae erthygl 2(a) i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 Rhif 672) ac Atodlen 1 iddo yn cael effaith fel bod rhaid i'r Comisiwn yn hytrach gyflwyno'r amcangyfrif i'r Cynulliad.

(**6**) 1996 p. 52.

Mae Atodlen 4 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol. Yn hyn o beth mae Atodlen 4 yn gwneud y diwygiadau sy'n angenrheidiol i beri bod Rhan 3 o Ddeddf 2000 yn cydweddu'n llawn â'r Ddeddf. Yn ei hanfod, pan ddaw Atodlen 4 i rym yn llawn, bydd swyddogaethau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ("y Comisiwn") a swyddogaethau'r Comisiynydd Lleol yng Nghymru ("y Comisiynydd") o dan Ran 3 o Ddeddf 2000 yn dod yn swyddogaethau'r Ombwdsmon.

A siarad yn fras, o ran awdurdodau perthnasol yn Lloegr (fel y'u diffinir yn Neddf 2000) ac awdurdodau heddluoedd yng Nghymru mae'r pwerau yn Rhan 3 o Ddeddf 2000 i wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â chyrff o'r fath wedi eu breinio yn yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran awdurdodau perthnasol yng Nghymru (heblaw awdurdodau heddluoedd yng Nghymru) mae'r pwerau hynny wedi eu breinio yn y Cynulliad. Mae'r pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn a'r Comisiynydd o dan Ran 3 o Ddeddf 2000 wedi eu breinio yn y Cynulliad.

Mae erthyglau 4(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 12 Hydref 2005 y darpariaethau hynny o Atodlen 4 sy'n diwygio'r pwerau yn rhan 3 o Ddeddf 2000 i wneud gorchmynion a rheoliadau (yn ôl y digwydd) mewn cysylltiad ag ymddygiad aelodau a chyflogeion awdurdodau perthnasol (o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf 2000) gan beri bod y darpariaethau hynny, lle bo angen, yn cydweddu'n llawn â'r Ddeddf.

Hyd nes daw adran 35 ac Atodlen 4 i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2006 nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw swyddogaethau dan Ran 3 o Ddeddf 2000. Er hynny mae erthyglau 4(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn galluogi gwneud gorchmynion a rheoliadau i baratoi ar gyfer yr adeg, ar 1 Ebrill 2006, pryd y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd drosodd swyddogaethau'r Comisiwn a'r Comisiynydd o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno.

Er hynny, hyd nes daw adran 35 ac Atodlen 4 i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2006, bydd y Comisiwn a'r Comisiynydd yn parhau i fod â swyddogaethau o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno. Mae erthygl 4(3) o'r Gorchymyn hwn, felly, yn darparu bod darpariaethau Rhan 3 o Ddeddf 2000 a fyddai fel arall yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau a wnaed gan ddarpariaethau'r Ddeddf a ddygwyd i rym gan erthygl 4(1) a (2) o'r Gorchymyn hwn yn parhau i gael effaith (fel pe na baent wedi cael eu diwygio felly) at y diben o wneud gorchmynion a rheoliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau sydd eisioes yn mynd rhagddynt y Comisiwn a'r Comisiynydd o dan Ran 3 o Ddeddf 2000.

Mae erthygl 5(1) yn dwyn gweddill darpariaethau'r Ddeddf (ac eithrio adran 20 a pharagraff 15(5) o Atodlen 1) i rym ar 1 Ebrill 2006.

Mae erthygl 5(2) ac Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau arbedol. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chyfrifon ac adnoddau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru. Yr un person sydd ar hyn o bryd yn dal pob un o'r swyddi hyn.

Effaith y darpariaethau hyn, am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006, yw bod y gofynion sy'n ymwneud â'r swyddi hyn i baratoi cyfrifon ac i gael archwiliad o'r cyfrifon hynny etc. yn parhau yn gymwys. Yn gymaint â bod y darpariaethau hynny yn dal yn gymwys, caiff yr Ombwdsman ei ystyried yn swyddog cyfrifyddu o ran pob un o'r swyddi hynny, er enghraifft, at ddibenion llofnodi'r cyfrifon.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth o ran unrhyw gwyn a wneir neu a gyfeirir yn briodol at yr Ombwdsmon ynglŷn â mater sy'n ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 ac ynglŷn â digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad hwnnw. Dim ond os yw'r weithred yr achwynir o'i phlegid wedi digwydd cyn 1 Ebrill 2006 y bydd Adran 38 (cwynion heb benderfyniad arnynt) yn gymwys. Os yw cwyn yn ymwneud â gweithred sy'n digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ei ôl bydd darpariaethau Rhan 2 yn gymwys i'r gwyn honno.

At ddibenion erthygl 6 ni waherddir yr Ombwdsmon rhag ymchwilio i fater yn unig oherwydd bod y mater yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 (erthygl 6(3)).

Er hynny, at ddibenion erthygl 6 dim ond os bydd amodau penodol wedi cael eu bodloni (erthygl 6(2)) y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i fater o'r fath yn gymaint â'i fod yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwnnw. Dyma'r amodau hynny:

(a) rhaid i'r gŵyn fod wedi'i gwneud fel arall yn briodol neu wedi ei chyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon, a

(b) gallesid (heblaw am ddarpariaethau eraill y Ddeddf) bod wedi gwneud y gŵyn parthed y digwyddiadau a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Lleol Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru neu Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ("ombwdsmyn presennol Cymru") ond ni wnaed hynny.

Er enghraifft, os, ar ôl 1 Ebrill 2006, ychwanegir corff i Atodlen 3 (awdurdodau rhestredig) gan orchymyn y Cynulliad o dan adran 28(2) ond nad yw'n gorff sydd, cyn y dyddiad hwnnw, o fewn awdurdodaeth un o ombwdsmyn presennol Cymru yna ni fydd erthygl 6 yn gymwys. Dim ond os yw'r mater yn rhychwantu 1 Ebrill 2006 ac os yw'r corff dan sylw, ar ôl y dyddiad hwnnw, o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon a chyn y dyddiad hwnnw o fewn awdurdodaeth un o ombwdsmyn presennol Cymru, y bydd erthygl 6 yn gymwys.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi a chyflwyno i Gabinet y Cynulliad amcangyfrif o incwm a threuliau'r swydd honno am y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007.

Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif hwnnw i Gabinet y Cynulliad dim hwyrach na mis cyn cychwyn y flwyddyn ariannol honno. Rhaid i Gabinet y Cynulliad ystyried yr amcangyfrif hwnnw ac yna ei osod gerbron y Cynulliad gyda'r fath addasiadau ag y tybia'n briodol. Er hynny, os yw Cabinet y Cynulliad yn bwriadu gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, rhaid i Gabinet y Cynulliad ymghynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyntaf.